

Digwyddiad Kronospan Ionawr 2020

Ymateb i bryderon a godwyd gan drigolion

Yn ystod oriau mân bore dydd Llun, 13 Ionawr, roedd yna dân yn ardal cadw coed Kronospan. Roedd y gwasanaeth tân wedi ymateb yn brydlon a rheoli'r tân. Roedd y tân yn cynnau tan ddydd Gwener, 17 Ionawr ac o ganlyniad roedd yna lawer o fwg wnaeth achosi pryderon i'r sawl yn yr ardal yr effeithiwyd arni.

Yn ystod y dyddiau canlynol roedd yna ymateb aml-asiantaeth oedd yn cynnwys cyfarfod cyngor tref nos Iau, 16 Ionawr.

Roedd y digwyddiad yn amlwg wedi achosi llawer o bryderon a chwestiynau gan drigolion oedd yn teimlo nad oeddent yn derbyn sylw.

Mae'r sawl wnaeth anfon e-bost, cysylltu â'r Cyngor ac asiantaethau eraill wedi derbyn ymateb unigol ond teimlwyd y byddai'n ddefnyddiol rhoi atebion i'r cwestiynau a ofynnwyd mewn un ddogfen.

Cwynion bod cyfathrebu wedi bod trwy'r cyfryngau cymdeithasol yn unig

Cyhoeddodd Kronospan ei ddatganiad i'r wasg cyntaf, mewn cytundeb gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am 10.25am bore dydd Llun.

Roedd y Cyngor yn arwain o ran y cyfathrebu ar ddydd Mercher, 15 Ionawr ac o'r amser hwnnw roedd yna ddiweddariadau rheolaidd drwy gyfryngau cymdeithasol a hefyd drwy'r cyfryngau darlledu a'r wasg. Yn ychwanegol, roedd y wybodaeth wedi'i hanfon i'r Cyngor Tref, llyfrgell a'r ganolfan hamdden wnaeth gytuno i roi copi caled ar eu hysbysfyrdau.

Nid yw cyfathrebu gyda thrigolion mewn digwyddiad o'r fath yn hawdd a byddwn yn edrych ar ddulliau eraill o gyfathrebu yn yr wythnosau nesaf y gellir eu defnyddio pe bai yna ddigwyddiad tebyg yn y dyfodol.

Pryderon iechyd

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn deall y pryderon a fynegwyd gan breswylwyr yn dilyn y tân.

Rhoddwyd y cyngor cychwynnol hwn ar 14 Ionawr ac adolygwyd yn rheolaidd o hynny ymlaen i sicrhau ei fod yn gyson gyda'r asesiad risg parhaus.

Roedd rhai cwestiynau wedi eu codi yn y Cyfarfod Cyngor Tref a gynhaliwyd nos Iau, 16 Ionawr.

Ydy Iechyd Cyhoeddus Cymru yn mynd i fonitro iechyd unigolion a ddaeth i gysylltiad â'r mwg o'r Tân yn Kronospan?

Beth yw'r effeithiau iechyd tymor byr o ddod i gysylltiad â mwg o'r Tân yn Kronospan?

Beth yw'r effeithiau iechyd tymor hir o ddod i gysylltiad â mwg o'r Tân yn Kronospan?

Ydy'r cemegion a ryddhawyd o goed gwlyb yn llosgi yn achosi canser?

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi paratoi nodyn briffio sy'n egluro manteision ac anfanteision monitro iechyd yn dilyn digwyddiadau amgylcheddol. Mae'r nodyn hwn ynghlwm.

Y cyngor a roddwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru unwaith yr oeddent yn ymwybodol o'r digwyddiad oedd:-

Os ydych chi mewn man sy'n cael ei effeithio gan fwg, arhoswch y tu mewn a chaewch y drysau a'r ffenestri, ond agorwch nhw eto er mwyn cael aer i mewn i'ch cartref ar ôl i'r mwg basio. Os oes rhaid i chi fod y tu allan, osgowch yr ardaloedd sydd wedi eu heffeithio gan fwg neu ludw, neu cyfyngwch yr amser y byddwch chi'n ei dreulio tu allan. Dylai modurwyr sy'n teithio drwy'r mwg gadw eu ffenestri ar gau, diffodd y system aerdymheru a chadw tyllau aer y car ar gau.

Gall mwg lidio llwybrau anadlu, y croen a'r llygaid gan arwain at dagu a brest dynn, diffyg anadl a phoen yn y frest. Gall hyn hefyd olygu fod problemau megis asthma yn gwaethygu; dylai pobl sydd ag asthma gario eu hanadlydd gyda nhw drwy'r amser. Gall arogleuon sy'n gysylltiedig â thanau achosi annifyrrwch, straen a gorbryder, cyfog, cur pen neu bendro. Mae'r rhain yn adwaith cyffredin i arogleuon, yn hytrach nac i'r sylweddau sy'n achosi'r arogl. Fe allwn ganfod arogleuon ar lefelau sydd yn llawer is na'r lefelau sy'n gallu achosi niwed i iechyd.

Dylai unrhyw un sy'n poeni am eu symptomau gysylltu â'u Meddyg Teulu neu Galw Iechyd Cymru ar 0845 46 47. Mae'r symptomau'n diflannu'n gyflym fel rheol ac ni ddylent arwain at broblemau iechyd hir dymor.

Roedd y cyngor hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd o ymchwil a phrofiad asiantaethau iechyd y cyhoedd o amgylch y byd. Gall yr effaith tymor byr hwn ar iechyd oherwydd tân fod yn amhleuserus, fel y nodwyd, gall amrywio o arogl amhleuserus i dagu, brest dynn, diffyg anadl a phoen yn y frest. Fodd bynnag, gellir lleihau'r effeithiau hyn drwy loches, maent fel arfer yn diflannu'n sydyn ac ni ddylai arwain at broblemau iechyd tymor hir.

Monitro Ansawdd Aer

Mae preswylwyr wedi mynegi pryderon bod yr ymateb gan bartneriaid aml-asiantaeth yn araf – cafodd yr aer ei fonitro 2 ddiwrnod ar ôl i'r tân ddechrau wnaeth fetu'r gwaethaf o'r mwg.

Mae yna gwestiynau'n codi hefyd am argaeledd offer o'r fath yng Ngogledd Cymru.

Bu Cyngor Wrecsam yn gweithio fel rhan o ymateb aml-asiantaeth i'r tân. Roedd asiantaethau yn cynnwys Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Gwasanaeth Ambiwylans Cymru, BIPBC, Iechyd y Cyhoedd, Cyfoeth Naturiol Cymru. Gwnaed penderfyniad ynglŷn â defnyddio'r Cell Ansawdd Aer yn dilyn trafodaeth gyda'r asiantaethau uchod i gyd.

Cafodd ansawdd yr aer ei fonitro o ddydd Mercher, 15 Ionawr gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac mae CBS Wrecsam wedi dechrau monitro ansawdd aer yn y Waun. Bydd CBS Wrecsam yn ymrwmo i gysylltu gyda Chyfoeth Naturiol Cymru a Kronospan gyda'r nod o osod offer monitro Ansawdd Aer yn y Waun sy'n darparu data monitro amser real y gellir ei weld yn uniongyrchol gan y gymuned.

Ymchwiliad yn parhau

Yn dilyn casgliad ymchwiliad y Gwasanaeth Tân i achos y tân – sef hylosgiad naturiol – bydd swyddogion Amddiffyn y Cyhoedd yn y Cyngor, sy'n gyfrifol am reoleiddio trwydded amgylcheddol Kronospan, gan gynnwys ardaloedd pentwr coed yn y ffatri, yn ymchwilio i amgylchiadau y tân.

Bydd yr ymchwiliad hwn yn cymryd amser i'w gwblhau ac ni ellir rhoi manylion y canlyniad nes bydd yr holl ffeithiau ar gael.

Mae pob asiantaeth yn deall y pryderon a godwyd yn y gymuned yn dilyn y trydydd tân mewn tair blynedd.

Cyswllt gyda'r gymuned yn y dyfodol

Cafodd Grŵp Cyswllt Amgylcheddol y Waun ei sefydlu dros 20 mlynedd yn ôl ac mae'n cynnwys cynrychiolaeth o Gyngor Tref y Waun, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyfoeth Naturiol Cymru a Kronospan. Diben y Grŵp yw darparu deialog agored rhwng cynrychiolwyr y gymuned; y gweithredwr a'r awdurdodau rheoleiddio, er mwyn i wybodaeth berthnasol gael ei throsglwyddo i'r gymuned. Oherwydd y pryderon a godwyd gan y gymuned yn dilyn y digwyddiad hwn, byddai'n briodol adolygu swyddogaeth a diben y grŵp hwn gyda'r nod o wella cyfathrebu yn y dyfodol a chysylltiad gyda'r gymuned.

Iawndal?

Mae Kronospan wedi ysgrifennu at y sawl yn yr ardal yr effeithir arni i ofyn am eu pryderon os nad ydynt wedi gwneud hynny eisoes. Byddwn yn eich annog i ymateb i'r llythyr hwn drwy anfon e-bost atynt Office23@kronospan.co.uk neu drwy ffonio 01691 775497 yn ystod oriau swyddfa.